

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Y TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

<u>Enw/Cyfeiriad y Darparwr:</u>	The Regard Partnership, 6A The Uplands House, Trecelyn
<u>Dyddiad yr Ymweliad:</u>	Dydd Iau 19 Ebrill 2018
<u>Swyddog(ion) Ymweld:</u>	Ceri Williams: Swyddog Monitro Contract, CBS Caerffili
<u>Yn Bresennol:</u>	Ann Peebles: Rheolwr, The Uplands House, The Regard Partnership

1. Cefndir

- 1.1 Mae The Uplands House yn eiddo mawr ar ben uchaf Tref Trecelyn, ac er nad yw'n bell o ganol y dref, cydnabyddir y gallai'r lleoliad achosi anawsterau i unigolion sydd â nam ar eu symudedd o ran mynd o gwmpas ar eu pen eu hunain.
- 1.2 Ar adeg yr ymweliad, roedd tri pherson yn preswyllo yn The Uplands House, ac roedd dau wedi'u lleoli yno gan Wasanaethau Cymdeithasol Caerffili. Mae un lle gwag ar hyn o bryd.
- 1.3 Mae Swyddogion Monitro Contract yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer casglu a dehongli gwybodaeth fel rhan o ymweliadau monitro, gan gynnwys arsylwi arferion yn y cartref, archwilio dogfennau, a sgysiau gyda staff, preswylwyr a pherthnasau.
- 1.4 Nododd arolwg a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2017 (cyhoeddwyd adroddiad ym mis Medi 2017) na nodwyd unrhyw feysydd lle nad oedd cydymffurfiad, nac unrhyw welliannau.
- 1.5 Cynhaliwyd yr ymweliad monitro blaenorol ar ddydd Iau 19 Ionawr 2017 a nodwyd un cam unioni a dau gam datblygiadol. Adolygwyd y camau yn ystod yr ymweliadau ac amlinellir y canfyddiadau yn adran 2 isod.
- 1.6 Yn dibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, rhoddir camau unioni a chamau datblygiadol i'r darparwr eu gweithredu. Mae camau unioni yn gamau y mae'n rhaid eu cyflawni (fel y'u rheolir gan ddeddfwriaeth ac ati), ac mae camau datblygiadol yn gamau yr ystyrir eu bod yn arferion da.

2. Argymhellion Blaenorol

Unioni

- 2.1 Cynnal goruchwyliaeth ar gyfer yr holl staff bob dau fis.
CYFLAWNWYD: Roedd y matrices goruchwyliaeth a ddarparwyd gan y rheolwr yn rhoi tystiolaeth y cynhelir sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd ar gyfer yr holl staff.

Datblygiadol

- 2.2 Canfuwyd bod y gofrestr defnyddwyr gwasanaeth yn y ffeil diogelwch tân heb ei diweddarau; daethpwyd â hyn at sylw'r rheolwyr a ddywedodd y byddent yn ei diweddarau'n briodol.
CYFLAWNWYD: Edrychwyd ar y ffeil diogelwch tân ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth gyfredol angenrheidiol.
- 2.3 Ystyried rhoi ffotograffau preswylwyr ar becynnau meddygol.
CYFLAWNWYD: Rhoddwyd ffotograffau ar siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau'r preswylwyr.

3. Canfyddiadau o'r Ymweliad

3.1 Cynllunio Gwasanaeth

- 3.1.1 Roedd Cynllun Gofal yr Awdurdod Lleol ar ffeil y ddau breswlydd a leolwyd gan CBSC a nodwyd y meysydd cymorth sydd eu hangen. Roedd y cynlluniau gwasanaeth canlyniadol ar gyfer pob maes (megis cymorth ariannol a chymorth o ran gofal personol) yn adlewyrchu'r Cynllun Gofal yn gywir ac roeddent yn gynhwysfawr yn eu manylder. Roedd tystiolaeth bod pob maes a nodwyd wedi'i ddarllen a'i lofnodi gan yr holl staff, sy'n dangos gwybodaeth drylwyr ynghylch sut i gynorthwyo a gofalu am y preswlydd.
- 3.1.2 Roedd y cynlluniau gwasanaeth unigol yn gynhwysfawr a dangoswyd bod y preswylwyr wedi cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r cymorth a dderbyniant. Llofnodwyd y cynlluniau gan y preswlydd ynghyd â'r rheolwr a'r holl staff a oedd yn ymwneud â chynorthwyo'r preswlydd.
- 3.1.3 Roedd ffeiliau cleientiaid a welwyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i greu darlun o'r person hefyd, gan gynnwys dewisiadau personol a dangosyddion lles fel hanesion bywyd, hoff a chas bethau, patrymau cysgu a monitro pwysau.
- 3.1.4 Roedd adolygiadau misol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn bresennol ar ffeil ac yn cynnwys tystiolaeth o newidiadau o ran anghenion a champau dogfenedig i'w cymryd.
- 3.1.5 Cynhelir adolygiadau mwy manwl bob chwe mis gyda defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr allweddol.

3.1.6 Rhoddodd y rheolwr wybod i'r Swyddog Monitro Contract am newidiadau diweddar yn arferion bwyta preswlydd sy'n cael eu hymchwilio'n feddygol ar hyn o bryd. Roedd y cynllun gwasanaeth a welwyd ar ffeil yn gyfredol ac yn cynnwys y newid mewn ymddygiad/anghenion ac roedd yn cynnwys canllawiau eglur ar gyfer staff ynghylch sut i ymateb pe bai sefyllfa'n codi.

3.2 Asesiadau Risg

3.2.1 Mae asesiadau risg yn ffurfio rhan o ddogfennaeth y Cynllun Gwasanaeth ac maent yn cynnwys meysydd fel cyllid a maeth. Hefyd, ceir Cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol sy'n ddogfen gynhwysfawr, ac mae'n cynnwys rhestr o risgiau a chanllawiau ar gyfer staff ynghylch sut i'w rheoli ynghyd â diagramau sy'n dilyn dulliau uwchgyfeirio/isgyfeirio ar gyfer Ymddygiad Cadarnhaol.
Roedd tystiolaeth bod staff wedi darllen y rhain yn ôl y daflen lofnodi.

3.2.2 Gwelwyd bod asesiad risg ar gyfer dianc yn achos un o'r preswylwyr yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar gyfer staff ac roedd yn cynnwys proffil person coll ar gyfer y preswlydd gyda ffotograff a rhifau ffôn cyswllt argyfwng ym mlaen y ffeil i staff gael mynediad hawdd mewn argyfwng.

3.3 Dogfennaeth

3.3.1 Roedd tystiolaeth yn ffeil y preswlydd o atgyfeiriadau rheolaidd at weithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys atgyfeiriadau at yr ymarferwr cyffredinol a chiropodydd.

3.3.2 Gwelodd y swyddog monitro contract Gynllun Canlyniadau Personol ar gyfer preswlydd, sy'n cynnwys y cofnod dyddiol a'r cynllun gwasanaeth; mae'r ddogfennaeth hon yn hwyluso ei llenwi gan ofalwyr ac mae'n hawdd ei dilyn. Roedd yn bleser gweld bod tystiolaeth o hoff a chas bethau'r preswlydd, a'u harferion, a'r hyn a oedd yn eu sbarduno (hwyliau isel, cysgu gwael, ymosodedd) wedi'u nodi yn y dogfennau, a oedd yn dangos dealltwriaeth dda o'r preswlydd dan sylw.

3.3.3 Mae Regard yn defnyddio cyfuniad o restrau ticio ac ysgrifennu rhydd ar gyfer llenwi cofnodion dyddiol. Wedyn, caiff y wybodaeth hon ei bwydo i adolygiadau misol sy'n rhestru'r canlyniadau a nodwyd ac os cyflawnwyd y rhain, gan ddefnyddio system sgorio. Mae'r gwaith papur hwn yn cynnwys rhesymau dros ddiffygion a chamau a gymerwyd.

3.4 Dull o Ofalu

3.4.1 Hyrwyddir annibyniaeth drwy annog preswylwyr i wneud cymaint ag y bo modd gan roi sylw dyladwy i'w galluoedd. Cefnogir preswylwyr i geisio ymgymryd â thasgau cartref fel paratoi byrbryd neu ddiod, golchi llestri a golchi dillad, cynnal sgiliau presennol ac annog datblygiad sgiliau eraill lle bynnag y bo modd. Mae'r holl breswylwyr yn cymryd rhan mewn mynd i siopa am fwyd i'r cartref.

3.4.2 Cynhelir cyfarfodydd adolygu bob mis er mwyn cael adborth gan breswylwyr a'u cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau, naill ai ynghylch y cartref neu amdany'n nhw eu hunain.

3.4.3 Caiff teuluoedd eu cynnwys cymaint ag y bo modd ac fe'u hanogir i fynychu unrhyw gyfarfodydd gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol. Os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, ceir cyfle iddynt gael adborth ar lafar. Hefyd, anfonir arolygon blynyddol er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr, perthnasau a rhanddeiliaid roi eu barn ac unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth.

3.5 Cwynion a Chanmoliaeth

3.5.1 Gwelwyd y ffeil gwynion ac roedd yn bleser gweld na dderbyniwyd unrhyw gwynion ers yr ymweliad monitro diwethaf. Caiff cwynion (os y'u derbynnir) eu cyfleu i staff trwy gyfarfodydd tîm.

3.5.2 Gwelwyd sylwadau gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld, a oedd yn canmol y cartref yn fawr iawn.

3.5.3 Dywedodd un gweithiwr proffesiynol fod 'y cynlluniau gwasanaeth yn dda iawn gyda digon o wybodaeth' a theimlent eu bod yn adnabod y preswlydd heb hyd yn oed eu cyfarfod.

3.5.4 Ni dderbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol unrhyw gwynion yn ystod y 12 mis diwethaf.

3.5.5 Roedd adborth a gafwyd gan staff rheoli gofal CBSC yn gadarnhaol iawn.

3.6 Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth a Rhanddeiliaid

3.6.1 Ceir adborth gan breswylwyr mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynnal adolygiadau misol gyda'u gweithiwr allweddol, cyfarfodydd preswylwyr bob tri mis ac arolygon 'fy marn i'.

3.6.2 Mae enghreifftiau a newidiadau a wnaed yn dilyn adborth gan breswylwyr yn cynnwys newidiadau i weithgareddau a newidiadau i addurniad y cartref.

3.6.3 Anfonir arolygon boddhad at deuluoedd/frindiau a gweithwyr proffesiynol allanol bob blwyddyn hefyd.

3.6.4 Mae'r adroddiad sicrhau ansawdd blynyddol yn nodi cyfraniad y preswylwyr o ran cyflwyno eu barn ac awgrymiadau. Mae'r adroddiad yn ymdrin â meysydd fel ansawdd bywyd, ansawdd y staffio ac ansawdd yr amgylchedd. Wedyn, cyhoeddir yr adroddiad ac mae ar gael yn y cartref i deuluoedd a phreswylwyr ei ddarllen.

3.7 Sefydlu a Hyfforddiant

- 3.7.1 Darparwyd y matrices hyfforddiant a'r matrices e-ddysgu i'r Swyddog Monitro Contract. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ar gyfer yr holl staff.
- 3.7.2 Roedd yn bleser nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant nad yw'n orfodol hefyd, mewn meysydd fel dementia, iechyd meddwl ac epilepsi, er mwyn cael dealltwriaeth well o'r preswylwyr y maen nhw'n eu cynorthwyo.

3.8 Goruchwyliaeth ac Arfarnu

- 3.8.1 Cynhelir arfarniadau yn flynyddol a gwelwyd tystiolaeth bod yr holl staff wedi derbyn arfarniad.
- 3.8.2 Cynhelir sesiynau goruchwyliaeth yn rheolaidd ac maent yn digwydd yn amlach nag sy'n ofynnol gan reoliadau.
- 3.8.3 Roedd y matrices goruchwyliaeth yn rhoi tystiolaeth o oruchwyliaeth grŵp a goruchwyliaeth un i un ac arsylwadau'n cael eu cyflawni gyda staff.

3.9 Staffio

- 3.9.1 Cyflogir 10 aelod staff yn y cartref gan gynnwys y rheolwr.
- 3.9.2 Cafodd rotâu staff am bedair wythnos eu hanfon ymlaen at y Swyddog Monitro Contract. Dangosodd y rotâu fod dau weithiwr cymorth yn bresennol bob diwrnod yn ogystal â'r rheolwr o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw staff yn gweithio mwy na 48 awr.
- 3.9.3 Dywedodd y rheolwr fod un aelod staff newydd wedi'i recriwtio dros y 12 mis diwethaf i gymryd lle un aelod staff a oedd wedi gadael.
- 3.9.4 Cadarnhaodd y rheolwr na ddefnyddir staff asiantaeth gan fod staff presennol yn hyblyg ac yn gallu gweithio sifftiau ychwanegol pan fo angen.
- 3.9.5 Gwelwyd dwy ffeil staff yn ystod yr ymweliad. Roedd y ddwy ffeil yn cynnwys prawf o hunaniaeth a ffotograffau, gwiriad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth llawn a dau eirida.

3.10 Diddordebau a Gweithgareddau

- 3.10.1 Anogir preswylwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau allanol a mewnol yn seiliedig ar eu dewisiadau penodol a'u lefel gallu. Caiff gweithgareddau a awgrymir eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Personol y preswylwyr. Nid oes 'amserlen' weithgareddau yn y cartref ac mae gweithgareddau'n digwydd yn

fwy ad hoc, yn dibynnu ar ddymuniadau a dewisiadau'r preswylwyr ar unrhyw ddiwrnod penodol.

3.10.2 Mae preswylwyr yn gallu hysbysu'r staff ar lafar ynghylch gweithgareddau y maen nhw'n dymuno cymryd rhan ynddynt. Yn achos y preswylwyr hynny sy'n ddieiriau, mae aelodau staff yn monitro'r olwg ar eu hwyneb, synau ac ystumiau i benderfynu ar yr hyn y maen nhw wedi'i fwynhau o'r blaen.

3.10.3 Gwelwyd tystiolaeth mewn cofnodion dyddiol o staff yn cynnwys preswylwyr mewn gweithgareddau yn y gymuned yn ogystal ag yn y cartref. Mae preswylwyr wedi'u cynorthwyo ar wyliau hefyd. Yn ogystal, roedd tystiolaeth o staff yn mynd ati i ddod o hyd i weithgaredd penodol y mae'r preswilydd yn dymuno cymryd rhan ynddo.

3.11 Iechyd a Diogelwch Tân

3.11.1 Cynhelir ymarferion tân yn yr eiddo bob chwarter ac roedd yr holl staff wedi mynychu ymarfer tân yn ystod y 12 mis diwethaf.

3.11.2 Gwelwyd y ffeil ddamweiniau ac roedd digwyddiad diweddar wedi'i ddogfennu a'i gofnodi'n briodol. Roedd asesiadau risg a chynlluniau defnyddwyr gwasanaeth wedi'u diweddarau yn dilyn y digwyddiad a rhoddwyd camau i'r staff eu dilyn.

3.12 Cymhorthion ac Offer

3.12.1 Ni chafodd hyn ei gynnwys yn ystod yr ymweliad monitro oherwydd nid oedd unrhyw un o'r preswylwyr CBSC yn defnyddio unrhyw gymhorthion neu offer.

3.13 Amgylchedd y Cartref

3.13.1 Roedd pob rhan o'r cartref wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus heb unrhyw arogleuon drwg. Roedd ystafelloedd y preswylwyr yn lân a heb unrhyw annibendod ac roeddent yn cynnwys tystiolaeth o bersonoli.

3.13.2 Nid oes storfa y gellir ei chloi yn ystafell wely un preswilydd gan eu bod wedi gwrthod un, a chofnodwyd hyn yn ffeil y cleient.

3.13.3 Mae drws ffrynt newydd wedi'i osod a gwnaed gwelliannau i'r gât allanol er mwyn ei gwneud yn fwy diogel.

3.14 Maeth

3.14.1 Rhoddir dewisiadau i'r preswylwyr ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio bwydlenni a phrynu'r nwyddau ar gyfer y cartref.

3.14.2 Anogir deiet iach ond rhoddir ystyriaeth i hoff a chas bethau'r preswylwyr. Anogir y preswylwyr i helpu gyda pharatoi a choginio bwyd, a gallant hefyd helpu eu hunain i fyrbrydau pryd bynnag y byddant eu hangen.

3.14.3 Dywedodd y Rheolwr wrth y swyddog monitro contract yr ymgynghorir â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd os oes unrhyw bryderon ynghylch maeth ac roedd tystiolaeth bod pwysau preswylwyr yn cael ei fonitro bob mis.

3.15 Meddyginiaethau

3.15.1 Bu pedwar gwall yn ymwneud â meddyginiaethau ers yr ymweliad monitro diwethaf.

3.15.2 Roedd yr holl ddogfennaeth a welwyd yn ymwneud â meddyginiaethau yn gyfoes ac fe'i hadolygir bob mis.

3.15.3 Caiff archwiliadau meddyginiaethau eu cyflawni bob wythnos gan aelod staff a'u llofnodi gan reolwr.

3.15.4 Roedd hyfforddiant meddyginiaethau yr holl staff yn gyfredol, ac yn ogystal, mae'r rheolwr yn cynnal arsylwadau yn rheolaidd wrth i staff weinyddu meddyginiaethau.

3.15.5 Er bod y rheolwr wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer gweinyddu meddyginiaethau, yn anffodus, mae gwllau yn ymwneud â meddyginiaethau yn parhau i ddigwydd. Argymhellir bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant Gweinyddu Meddyginiaethau yn Ddiogel gan CBSC.

3.16 Cwestiynau gan Staff

3.16.1 Ni siaradwyd ag unrhyw aelodau staff yn ystod yr ymweliad gan eu bod allan yn y gymuned yn cynorthwyo preswylwyr.

3.17 Cwestiynau gan y Rheolwr

3.17.1 Dywedodd y rheolwr wrthym fod ganddynt ddim gwybodus a phrofiadol o staff i gynorthwyo'r preswylwyr.

3.17.2 Roedd y rheolwr yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau tuag at y staff a'r preswylwyr ac roeddent yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe ceir unrhyw gwynion, mân ddigwyddiadau neu unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio ar lesiant y preswylwyr.

3.17.3 Anogir preswylwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac mae'r cartref wedi cynnal digwyddiadau thema mewn manau yn yr ardd sydd wedi'u huwchraddio, gan gynnwys picnic a phartïon Hawäiaidd. Hefyd, cynhelir partïon pen-blwydd a phartïon Nadolig, a gwahoddir teuluoedd a

ffrindiau i ymuno bob amser, a chynigir eu bod yn cael eu casglu a'u dychwelyd adref hyd yn oed.

3.18 Cwestiynau gan Breswylwyr

3.18.1 Ni siaradwyd ag unrhyw breswylwyr yn ystod yr ymweliad gan eu bod allan yn y gymuned.

4. Camau Unioni / Datblygiadol

4.1 Camau Unioni

4.1.1 Ni nodwyd unrhyw gamau unioni.

4.2 Camau Datblygiadol

4.2.1 Yr holl staff i fynychu hyfforddiant Gweinyddu Meddyginiaethau yn Ddiogel gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

5. Casgliad

5.1 Mae'r cartref yn hamddenol a chroesawgar. Mae'r staff yn brofiadol ac mae'r preswylwyr wedi ymgartrefi'n dda o fewn y cartref.

5.2 Darperir gofal o safon uchel a chynorthwyr y preswylwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac i gynnal eu hannibyniaeth pryd bynnag y bo modd.

5.3 Pleser oedd nodi bod yr holl gamau o'r adroddiad blaenorol wedi'u cyflawni.

5.4 Hoffai'r Swyddog Monitro Contract gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r staff a'r preswylwyr am eu hamser a'u lletygarwch yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Ceri Williams
Dynodiad: Swyddog Monitro Contract
Dyddiad: 16 Mai 2018